Estyn.
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Swyddfa Safonau mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru



Cyd-Arolygiad o Dimau Troseddwyr Ifanc Cymru a Lloegr

Adroddiad Ailarolygiad: Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Bro Morgannwg

ISBN: 978-1-84099-180-2 Ebrill 2009

Rhagair

Mewn arolygiad o Wasanaeth Troseddwyr Ifanc Bro Morgannwg a gynhaliwyd ym mis Hydref 2007 dan gam pedwar rhaglen arolygu Timau Troseddwyr Ifanc / Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, datgelwyd nifer o ddiffygion. Felly, cynhaliwyd ailarolygiad ym mis Rhagfyr 2008, gan ganolbwyntio ar argymhellion yr adroddiad gwreiddiol.

Roeddem yn falch o weld bod y Bwrdd Rheoli wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad gwreiddiol. Cytunwyd ar gylch gorchwyl newydd, adolygwyd aelodaeth a phenodwyd staff newydd, gan gynnwys Rheolwr newydd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Roedd gan y Bwrdd Rheoli well dealltwriaeth o'i rôl a'i gyfrifoldebau a gwnaeth staff y tîm argraff ar yr arolygwyr gyda'u brwdfrydedd, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymrwymiad cyffredinol. Gwelwyd tystiolaeth o welliannau yn safon yr ymarfer, ond roedd dal angen rhagor o waith mewn rhai meysydd allweddol o ddarparu gwasanaethau, megis asesu a rheoli Risg o Niwed a dulliau diogelu.

Er bod y broses newid a chynnydd yng nghyd-destun rheoli ac ymarfer yn dal i fod yn y cam ffurfiannol, credwn fod sylfeini'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi'u sefydlu a bod ganddo'r potensial i barhau i wella.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM

Chwefror 2009

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl staff y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, i aelodau ei Fwrdd Rheoli ac i'r sefydliadau partner am eu cymorth wrth sicrhau bod yr ailarolygiad hwn yn mynd rhagddo'n hwylus.

Arolygydd Arweiniol	*John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygydd	*Dan Parks Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau, Keith Humphreys Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Rowena Myles Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Claire Yardley Estyn*
Staff Cymorth	*Pippa Bennett, Oliver Kenton*
Tîm Cyhoeddiadau	*Kirk Davis, Alex Pentecost*
Rheolwr y Rhaglen	*Julie Fox, Arolygiaeth Prawf EM*

Y camau nesaf

Cyflwynir yr adroddiad i'r Arglwydd Ganghellor, fel yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid, gan roi copïau yr un pryd i'r Ysgrifenyddion Addysg ac Iechyd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Anfonir copi hefyd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Hefyd, bydd copïau ar gael i'r wasg a rhoddir copi ar wefan Arolygiaeth Prawf EM yn:

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation

Cynnwys

	Tudalen
Y camau nesaf	3
Geirfa	5
Crynodeb	6
ARGYMHELLION - Gweithredu gan:	
1. Y Prif Weithredwr	8
2. Y Bwrdd Rheoli	10
3. Cadeirydd y Bwrdd Rheoli	12
4. Rheolwr y GTI	13
Atodiad 1 Gwybodaeth gyd-destunol	23
Atodiad 2 Data'r Arolygiad	25
Atodiad 3 Trefniadau cyd-arolygu	27
Atodiad 4 Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r cod ymarfer	27

Geirfa

Asset	Arf asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc
Estyn	Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru
APEM (HMIP)	Arolygiaeth Prawf EM
TACAA (MAPPA)	Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth
NEET	Ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth
ONSET	Pecyn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer asesu plant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu
RN	Risg o Niwed
RND	Risg o Niwed Difrifol
BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
GTI	Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc

Crynodeb

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu

- Roedd Bwrdd Rheoli'r GTI wedi gwneud cais llwyddiannus i'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach ar gyfer arian am dair blynedd i ddatblygu strategaeth atal troseddu ymysg pobl ifanc.
- Cychwynnodd rheolwr cynorthwyol a phrofiadol y tîm atal ym mis Awst 2008 a phenodwyd cydlynydd atal a gychwynnodd ym mis Tachwedd 2008, ond nid oeddent wedi gallu rhoi eu sylw cyfan i ddatblygu'r gwasanaeth hwn a rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith.
- Roedd gan y GTI y weledigaeth a'r potensial i ddatblygu'r gwasanaeth atal ond, er mwyn gwneud hynny, roedd angen rhyddhau staff allweddol o'u cyfrifoldebau rheoli a gweithredu. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â swydd wag rheolwr cynorthwyol y tîm.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

- Gwelwyd sawl gwelliant yn y maes hwn o ganlyniad i lenwi swyddi gwag, diffinio swyddogaethau staff yn glir ac adolygu a chytuno ar bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau. Ar ben hynny, cafwyd rhaglen barhaus ar gyfer datblygu staff.
- Gwelsom dystiolaeth sy'n dangos bod cydweithwyr iechyd ac addysg a gwasanaethau plant yn cyfrannu mwy at gynlluniau ymyrryd ac asesu.
- Roedd y mater sylweddol a oedd yn disgwyl sylw yn ymwneud ag anallu'r GTI i gael cynlluniau priodol wrth gefn dros y tymor canolig ar gyfer absenoldebau staff. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â'r ddau aelod o'i staff iechyd a oedd ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, ond roedd yn ymwneud hefyd â swydd wag rheolwr cynorthwyol tîm gwaith achos yr oedd rhywun arall yn gwneud y gwaith dros dro am ddau ddiwrnod yr wythnos yn unig. Er bod y dirprwy a'r rheolwyr tîm cynorthwyol ac aelod o staff adran y Prif Weithredwr yn rhoi cymorth ychwanegol, roedd hyn ar ben eu dyletswyddau arferol.

Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Roedd y cynlluniau ymyrryd gwreiddiol wedi gwella o ran prydlondeb, ansawdd ac adolygu cynnydd.
- Roedd y GTI wedi gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau plant a phobl ifanc lleol, ac roedd statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i gofnodi'n glir mewn cyfran uwch o achosion nag o'r blaen.
- Roedd y GTI wedi nodi meysydd pryder yn ei dystiolaeth ymlaen llaw a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Anghyson oedd ansawdd

cyffredinol y gwaith i leihau Risg o Niwed Difrifol a helpu plant a phobl ifanc i 'aros yn ddiogel'. Roedd Bwrdd Rheoli a staff y GTI yn gwbl ymwybodol o'r diffygion hyn ac yn benderfynol o wella ansawdd eu gwaith. Roeddem yn teimlo bod gan y GTI y gallu i gyflawni hyn gyda staff llawn.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Penodwyd cydlynydd dioddefwyr rhan-amser ym mis Mehefin 2008. Yn anffodus, roedd hyn yn rhy hwyr i gael effaith o bwys ar y gwaith gyda dioddefwyr a'r gwaith gwneud iawn a arolygwyd yn y fanyleb sampl achosion yn y cyfnodau amrywiol rhwng 1 Mai 2008 a 31 Gorffennaf 2008.
- Gwelsom fod yr aelodau staff a oedd yn ynghlwm wrth y maes gwaith hwn yn ymroddedig ac yn frwdfrydig dros ben. Roedd materion dioddefwyr wedi cael eu cyfleu'n glir i holl staff y GTI ac roedd y conglfeini sylfaenol yn cael eu sefydlu er mwyn rhoi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith yn y gwasanaeth.
- Cwblhawyd hyfforddiant ar gyfer staff a gwirfoddolwyr y GTI ac yn ystod wythnos yr arolygiad, hyfforddwyd wyth gwirfoddolwr newydd ac roeddent yn barod i gymryd rhan yng ngwaith y panel troseddau ieuenctid.

Rheoli ac arwain

- Daethom ar draws Bwrdd Rheoli ar ei newydd wedd a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion adroddiad yr arolygiad blaenorol. Cytunwyd ar gylch gorchwyl newydd gydag asiantaethau partner, a llwyddwyd i gael cynrychiolaeth a phresenoldeb priodol o blith ystod o ddiddordebau. Roedd aelodau'n dechrau deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n well.
- Gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod gan y GTI, drwy'r Prif Weithredwr, fwy o gyswllt agos â'r awdurdod a'i fod mewn sefyllfa well gyda'r Bartneriaeth Pobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Roedd wedi cyfrannu'n llawn hefyd at gynhyrchu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2008 – 2011.
- Adolygwyd a llofnodwyd protocolau a chontractau neu roeddent wrthi'n cael eu cwblhau. Penodwyd staff allweddol er mwyn atgyfnerthu rheolaeth y GTI a'i allu i weithredu.
- Gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud, ond roedd angen rhagor o waith o ran cryfhau gallu'r GTI i fynd ati'n effeithiol i oruchwylio swyddogaeth rheoli achosion y gwasanaeth ac, yn benodol, wrth amddiffyn y cyhoedd a phlant a phobl ifanc agored i niwed.

ARGYMHELLION - Gweithredu gan:

1. Y Prif Weithredwr

Argymhelliad 1
Dylai'r Prif Weithredwr sicrhau bod y Bwrdd Rheoli'n cael ei sefydlu'n briodol; yn gweithio'n unol â'i gylch gorchwyl; yn cael cefnogaeth effeithiol gan asiantaethau partner a ddelir yn gyfrifol; a bod aelodau newydd yn dilyn rhaglen gynefino briodol ac yn cael eu paratoi ar gyfer eu rôl.

1.1 Roedd y Prif Weithredwr wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gadeirio'r Bwrdd Rheoli, a chytunwyd ar gynllun gweithredu amserol a'i anfon ymlaen i'r arolygydd arweiniol yn ôl y gofyn ar ôl yr arolygiad cyntaf.

1.2 Nododd yr arolygwyr fod y Bwrdd Rheoli wedi cytuno ar gylch gorchwyl newydd a'i gymeradwyo. Adolygwyd yr aelodaeth gan sicrhau bod cynrychiolaeth briodol yn dod o blith ystod o ddiddordebau, a gwelwyd gwelliant o ran presenoldeb, ymrwymiad a gallu i gymryd camau effeithiol.

1.3 Roedd aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi cael hyfforddiant cynefino a pharatowyd a rhoddwyd pecyn cynefino ar gyfer aelodau newydd. Roedd aelodau'r Bwrdd wedi gallu mynd ar gwrs priodol gan y Brifysgol Agored ac wedi cael cyngor gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ynghylch cyfleoedd hyfforddi yn y dyfodol.

1.4 Ers yr arolygiad gwreiddiol, cynhaliwyd 'digwyddiad diwrnod ar y cyd' rhwng staff ac aelodau'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at y cynllun gweithredu. Roedd aelodau staff y GTI wedi eu gwahodd i gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli i drafod eu gwaith.

1.5 Roedd y Bwrdd Rheoli, felly, wedi'i sefydlu'n briodol ac roedd aelodau'n dechrau deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n well.

1.6 Roedd adroddiad ar ddatblygiad y GTI wedi'i wneud i Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Bro Morgannwg.

Mater yn disgwyl sylw

1.7 Roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi goruchwylio'r trefniadau llywodraethu newydd ac roeddent yn edrych yn addawol. Roedd y trefniadau'n dal yn gymharol newydd ac nid oeddent wedi cael amser i wreiddio'n llwyr ar naill ai lefel strategol na lefel weithredol. Roedd aelodau'r Bwrdd Rheoli a gyfwelwyd yn cydnabod hyn ac roeddent yn benderfynol o adeiladu ar y sylfeini sydd wedi'u sefydlu erbyn hyn.

Argymhelliad 2

Dylai'r Prif Weithredwr sicrhau bod gan y GTI rôl strategol glir yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bartneriaeth Pobl Ifanc a'i fod yn gallu gwella ei allu gyda'u cefnogaeth hwy.

2.1 Roedd y Bartneriaeth Bro Ddiogelach a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cael eu cynrychioli ar lefel uwch ar y Bwrdd Rheoli.

2.2 Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyfranogiad y GTI i'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach a'r Bartneriaeth Pobl Ifanc ac wrth baratoi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Gweithiwyd ar y cyd i nodi angen ac i ddatblygu cynllun gwasanaeth tair blynedd. O ganlyniad, roedd y Bartneriaeth Bro Ddiogelach wedi cytuno ar roi cyllid am dair blynedd i'r GTI er mwyn darparu gwasanaeth atal mwy cynhwysfawr. Cynrychiolwyd y GTI hefyd ar saith gweithgor nodau craidd sy'n cyfrannu at Gynllun Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod ar gyfer 2008-2011.

2.3 Roedd gan yr awdurdod gynlluniau clir a doeth ar gyfer mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol a diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc fwy agored i newid, gan gynnwys y rheini mewn cysylltiad â'r GTI.

2.4 Gwelsom fod y GTI wedi datblygu ei gyfranogiad yn y cynlluniau strategol hyn ar sawl lefel a'i fod yn gwbl ymwybodol o'r ffrydiau cyllido sydd ar gael drwy grantiau Cymorth a diogelwch cymunedol. Gwelwyd rhywfaint o lwyddiant adeg yr arolygiad hwn ac roedd datblygiadau eraill ar y gweill ar gyfer y gwasanaeth gydag arian posibl o'r ffynonellau hyn.

Mater yn disgwyl sylw

2.5 Roedd Bwrdd Rheoli'r GTI wedi nodi bod angen datblygu mwy ar ei gyfraniad i gydweithio ar gynlluniau partneriaeth strategol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Er bod y GTI bellach yn chwarae rhan weithredol, cam cynnar yn y datblygiad oedd hwn.

Argymhelliad 3

Dylai'r Prif Weithredwr sicrhau bod y GTI yn cael cefnogaeth i wneud y mwyaf o hyfforddiant a datblygiad unigolion a chyfleoedd adeiladu tîm.

3.1 Ar ôl ailsefydlu Bwrdd Rheoli'r GTI, roedd y Prif Weithredwr wedi sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad ac adeiladu tîm ar gael. Cynhaliwyd gweithdy ymgynghori rhwng Bwrdd Rheoli a staff GTI er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth a hybu gwaith adeiladu tîm. Yn sgil hyn, lluniwyd y cynllun gweithredu a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan Arolygiaeth Prawf EM ym mis Mehefin 2008. Trefnwyd gweithdy arall ar y cyd ar gyfer mis Mawrth 2009.

3.2 Roedd y Prif Weithredwr wedi mynychu cyfarfodydd tîm staff y GTI yn bersonol er mwyn cynorthwyo yn y broses adeiladu tîm.

3.3 Gwahoddwyd aelodau unigol o'r staff i wneud cyflwyniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli yn eu meysydd cyfrifoldeb penodol.

3.4 Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi cael rhywfaint o hyfforddiant craidd ac roedd hyfforddiant arall ar y gweill drwy Gymdeithas Cenedlaethol ar gyfer Gofalu am Droseddwyr a'u Hailsefydlu a oedd yn cynnwys asesiadau Asset ac Onset, adnabod Risg o Niwed i'r cyhoedd a diogelu plant a phobl ifanc.

3.5 Gwahoddwyd ymgynghorydd datblygu gweithlu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru i wneud cyflwyniad gerbron y Bwrdd Rheoli ym mis Tachwedd 2008 ar amrywiol ddewisiadau hyfforddiant sydd ar gael a'r goblygiadau dilynol o ran adnoddau. Yn yr un cyfarfod, trafodwyd Strategaeth Datblygu Gweithlu ac roedd yn cynnwys cynllun hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff y GTI ac aelodau'r Bwrdd.

Mater yn disgwyl sylw

3.6 Nodwyd anghenion hyfforddiant a datblygwyd cynllun hyfforddi, ond roedd angen rhagor o waith yn y maes hwn er mwyn cyflwyno'r rhaglen hyfforddi a hybu datblygiad staff a gwasanaeth.

2. Y Bwrdd Rheoli

Argymhelliad 4
Dylai'r Bwrdd Rheoli sicrhau bod gan y gwasanaeth staff llawn gan gyrraedd y lefelau y cytunwyd arnynt eisoes gydag asiantaethau partner er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth.

4.1 Roedd adolygu strwythur y GTI a sefydlu'r staffio wedi bod yn gryn her i'r Bwrdd Rheoli ers tynnu eu sylw at ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2007. Roedd y Bwrdd Rheoli, gyda chyngor gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, wedi cymeradwyo strwythur rheoli newydd a phenodwyd uwch reolwyr i'r GTI. Roedd asiantaethau partner wedi cytuno ar gyllid, llenwyd swyddi gwag a chynyddodd nifer y staff i'r lefelau a gytunwyd.

4.2 Erbyn adeg yr ailarolygiad, roedd y strwythur staffio diwygiedig ar waith ac roedd y rhan fwyaf o'r deiliaid swyddi wedi dechrau ar eu gwaith. Roedd morâl y staff wedi gwella'n sylweddol.

4.3 Gyda staff yn eu lle, roedd y GTI wedi dechrau datblygu ei waith statudol a gwelwyd egin y gwasanaeth atal. Gwelwyd gwelliannau sylweddol o ran gwaith gyda gwasanaethau plant, addysg, iechyd, a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Adolygwyd, gwerthuswyd,

diweddarwyd a chytunwyd ar brotocolau a chontractau yn y meysydd hyn.

Materion yn disgwyl sylw

4.5 Roedd y GTI wedi nodi meysydd yr oedd angen gwella mwy arnynt o ran rheoli achosion a chadarnhawyd hyn gan yr arolygiad. Roedd staff wedi gweld pwysau gwaith cynyddol gan y llysoedd, a chafodd hyn effaith niweidiol ar ansawdd eu gwaith ymyrryd ac asesu. Roedd staff y GTI wedi bod yn teithio i lysoedd Caerdydd ers sawl mis wrth ddisgwyl i waith ailwampio llysoedd y Barri gael ei gwblhau, ond roedd y gwaith hwn wedi dod i ben erbyn adeg yr arolygiad ac roedd llai o lawer o bwysau.

4.6 Yn fwy diweddar, roedd effaith achosion mwy difrifol yn cynnwys Risg o Niwed Difrifol ac amddiffyn plant a phobl ifanc agored i niwed wedi ychwanegu at y llwyth gwaith. Adroddwyd ynghylch y pwysau hwn wrth y Bwrdd Rheoli a rhoddwyd sylw iddo. Llwyddwyd i gyflawni rhai gwelliannau drwy recriwtio rheolwyr achos dros dro ond roedd dal angen rhagor o benodiadau mwy parhaol.

4.7 Roedd dau aelod o staff y tîm gwaith achos ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch. Roedd rheolwr tîm cynorthwyol profiadol wedi dewis mynd am swydd rheolwr achos GTI yn yr wythnosau'n arwain at y gwaith maes. Nid oedd wedi bod yn bosibl cynllunio dros gyfnod hwy ar gyfer y newid hwn. Gwnaed trefniadau tymor byr i ddarparu staff ychwanegol a chymorth goruchwylio, ond nid oedd hyn wedi cael amser i gael effaith o bwys erbyn adeg yr arolygiad ac roedd y staff yn teimlo'n fregus o'i herwydd.

4.8 Nid oedd gan y strwythur staffio presennol allu nac arbenigedd digonol gan uwch reolwyr ar gyfer y gwaith goruchwylio a chefnogi proffesiynol yr oedd ei angen ar reolwyr achos. Gwnaed trefniadau dros dro, ac roedd trefniadau anffurfiol ar waith gyda gwasanaethau plant, ond roedd yr arolygwyr o'r farn bod angen i'r Bwrdd Rheoli roi blaenoriaeth i ystyried hyn ymhellach.

4.9 Cyllid tymor byr oedd i rai o'r swyddi ac roedd hyn, o ganlyniad, yn tanseilio morâl staff, ond roedd y Bwrdd Rheoli yn rhoi sylw i hyn.

4.10 Nid oedd wedi bod yn bosib trefnu staff dros dro ar gyfer staff nyrsio'r GTI a oedd yn absennol; roedd hyn wedi gadael bwlch mawr yn y gwasanaeth sydd ar gael.

Argymhelliad 5

Dylai'r Bwrdd Rheoli sicrhau bod y Bwrdd Rheoli'n datblygu ei fframwaith rheoli perfformiad er mwyn monitro ac adolygu rhoi'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar waith a goleuo cyfeiriad strategol y GTI.

5.1 Roedd y GTI wedi mynd ati'n ffurfiol i fabwysiadu Fframwaith Rheoli Perfformiad Bro Morgannwg a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007 fel sail ar gyfer monitro a datblygu perfformiad.

5.2 Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2008/2009 wedi'i gwblhau a'i gyflwyno mewn pryd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gan y Bwrdd Rheoli. Cymeradwywyd y cynllun gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a ddefnyddiodd y cynllun fel peilot ar gyfer proses dilysu cynlluniau yng Nghymru.

5.3 Ers yr arolygiad gwreiddiol, cynhaliwyd chwe chyfarfod y Bwrdd Rheoli ac roedd monitro/rheoli perfformiad wedi bod ar agenda pob cyfarfod.

5.4 Roedd y Bwrdd Rheoli wedi datblygu cynllun gweithredu'r arolygiad ac, ym mhob un o'i gyfarfodydd dilynol, roedd wedi canolbwyntio ar ddiweddaru'r cynnydd a wnaed ar bob pwynt gweithredu penodol.

5.5 Roedd y Bwrdd wedi cael adroddiadau gwaith yn dilyn cyhoeddi adroddiadau chwarterol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chraffwyd ar y rhain o un adroddiad chwarterol i'r llall er mwyn monitro tueddiadau a hyrwyddo datblygiad y gwasanaeth. Roedd y Bwrdd wedi nodi tuedd cadarnhaol a chalonogol o ran perfformiad.

5.6 Cyflwynwyd adroddiad ar blant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes ac roedd yn cynnwys adroddiad llawn gan y GTI yn rhoi sylw i'r pryderon a godwyd yn adroddiad arolygiad Arolygiaeth Prawf EM. Nod y craffu oedd sicrhau trefniadau mwy effeithiol ar gyfer nodi a darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

5.7 Roedd Rheolwyr y GTI wedi cyflwyno system archwilio Asset a ffeil achosion misol a oedd yn sylfaen i'r gwaith a wnaed wrth oruchwylio staff yn unigol ac a oedd yn sail i raglen hyfforddiant y GTI.

5.8 Roedd Rheolwyr y GTI wedi cyflwyno rhestr wirio ansawdd ar gyfer pob adroddiad llys.

Mater yn disgwyl sylw

5.9 Roedd y canolbwynt yn dechrau symud o faint i ansawdd ac roedd ymgynghorydd wedi bod wrthi am ddau ddiwrnod yr wythnos yn cynorthwyo tîm y GTI gyda'r dasg o ystyried ystod o ddangosyddion ymarfer perfformiad effeithiol. Cychwynnwyd hyn gan y Bwrdd Rheoli ym mis Tachwedd 2008 i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

3. Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

Argymhelliad 6

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod Rheolwr y GTI yn cael goruchwyliaeth ffurfiol sydd wedi'i chynllunio.

6.1 Dywedodd Rheolwr y GTI fod ganddi berthynas adeiladol a chadarnhaol dros ben gyda'i rheolwr llinell, y Prif Weithredwr, a oedd yn goruchwylio'n ffurfiol [adolygu a datblygu perfformiad] bob mis, o leiaf, ac yn goruchwylio'n anffurfiol yn ôl y gofyn.

6.2 Yn sgil y berthynas waith agos rhwng Rheolwr y GTI a'r Prif Weithredwr, gwelwyd cynnydd yn gyflym o ran gweithrediad y Bwrdd Rheoli, datrys materion staff a rheoli safon perfformiad y gwaith a wneir gan y GTI.

4. Rheolwr y GTI

Argymhelliad 7

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys staff gweinyddol, yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso'n rheolaidd o fewn fframwaith rheoli perfformiad.

7.1 Dangosodd Rheolwyr y GTI ymrwymiad i oruchwylio staff yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Roeddem yn falch o weld tystiolaeth bod goruchwyliaeth fisol ar gyfer pob aelod o staff wedi'i chyflwyno ac wedi'i chynllunio ymlaen llaw.

7.2 Defnyddiodd y GTI Bolisi Adrannol safonol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Datblygu a Goruchwylio Staff a ddiwygiwyd ac a gyflwynwyd o fis Medi 2008 ymlaen. Roedd y polisi ar ffurf sylfaenol y gellid ei haddasu ar gyfer rôl benodol. Roedd staff yn gallu cyfrannu at yr agenda a chynnig eu harsylwadau eu hunain.

7.3 Roedd y sampl o gofnodion goruchwylio a arolygwyd yn cynnwys dyddiad a llofnod y goruchwyliwr a'r sawl a gafodd ei oruchwylio. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gyfwelwyd eu bod yn fodlon ag ansawdd yr oruchwyliaeth a pha mor aml y bu'n digwydd yn ystod y chwarter yn arwain at yr arolygiad.

7.4 Cyflwynwyd gwerthusiadau blynyddol i staff ac fe'u rhoddwyd ar waith ar gyfer pob aelod o staff gan ddefnyddio'r broses adolygu a datblygu personol corfforaethol. Gwerthuswyd staff asiantaethau partner yn unol â pholisi eu hasiantaethau unigol.

Materion yn disgwyl sylw

7.5 Gwelwyd enghreifftiau o ddefnyddio dwy drefn wahanol. Roedd un yn seiliedig ar y broses adolygu a datblygu personol corfforaethol (gwerthusiad) a pholisi'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol (goruchwyliaeth) a fabwysiadwyd fel y drefn oruchwylio safonol o fis Medi 2008 ymlaen. Roedd angen y ddwy drefn ac roedd y gwaith o

ddefnyddio'r ddwy drefn wedi cychwyn, ond gwelsom fod angen datblygu ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n llawn ac yn gyson gyda phob aelod o staff.

7.6 Araf oedd datblygiad goruchwyliaeth reolaidd a chynlluniedig oherwydd diffyg gallu rheoli ac am nad oedd polisi goruchwylio cytunedig ar gael. Gwelwyd gwelliant yn hyn o beth dros y misoedd diwethaf. Dywedodd staff fod y broses oruchwylio'n gwella ond bod angen iddi gael ei gwreiddio'n rhan o ddiwylliant rheoli'r GTI. Rydym yn cytuno â'r farn hon.

Argymhelliad 8

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod pob agwedd ar y safonau cenedlaethol sy'n ymwneud ag ymarfer ac â rheolaeth weithredol yn cael eu cyflawni, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

ddatblygu gwasanaeth atal i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc unigol.

8.1 Roedd Bwrdd Rheoli'r GTI wedi gwneud cais llwyddiannus i'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach ar gyfer arian am dair blynedd i ddatblygu strategaeth a gwasanaeth atal troseddu ymysg pobl ifanc.

8.2 Roedd rheolwr cynorthwyol a phrofiadol y tîm atal wedi dechrau yn ei swydd newydd ym mis Awst 2008. Ar ben hynny, penodwyd cydlynydd atal hefyd, a oedd wedi dechrau yn ei swydd ym mis Tachwedd 2008.

8.3 Roedd y Bwrdd Rheoli, ar y cyd â Phartneriaeth Bro Ddiogelach, wedi cytuno ar y canlyniadau canlynol ar gyfer y flwyddyn gyntaf:

- canlyniad un – meincnodi lefel yr angen a'r gwasanaeth. I'w gyflawni drwy nodi, monitro a mapio anghenion gwasanaeth presennol pob un sy'n defnyddio'r GTI am y tro cyntaf, ac asesu lefel ac ansawdd y gwasanaethau a'r mecanweithiau adrodd
- canlyniad dau – sefydlu sianeli adrodd a chyfeirio effeithiol drwy ddatblygu prosesau a phrotocolau newydd ar gyfer y gwasanaeth
- canlyniad tri – cynnwys darparwyr gwasanaeth. Drwy fabwysiadu dull gweithio ar y cyd ag asiantaethau a darparwyr gwasanaethau sy'n rhan o feincnodi angen a gwasanaethau, a drwy ddarparu hyfforddiant amlddisgyblaeth a datblygu staff, hybu dealltwriaeth a hyder yn y gwasanaethau a'r prosesau a ddefnyddir
- canlyniad pedwar – cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Datblygu gwasanaeth atal ar gyfer y GTI, llunio cynllun gweithredu ar gyfer ei ddarparu a datblygu ystod o raglenni sy'n atal troseddu ac aildroseddu.

8.4 Yn ddiweddar, roedd y GTI wedi dechrau cynllun peilot ar gyfer grŵp bach o bum plentyn ac unigolyn ifanc rhwng naw a 12 oed. Cyfeiriwyd achosion o fewn y GTI i ddechrau, a rhoddwyd cynllun cymorth unigol i bobl ifanc a oedd yn cynnwys gwaith grŵp a gwaith unigol.

Materion yn disgwyl sylw

8.5 Er bod gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, roedd y cynnydd hyd yma wedi bod yn araf. Yn sgil pwysau gwaith, nid oedd y rheolwr cynorthwyol y tîm atal na'r cydlynydd atal wedi gallu hoelio eu sylw ar ddatblygu'r gwasanaeth a rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith.

8.6 Nod y GTI oedd gweithio gyda hyd at dri deg o blant a phobl ifanc y flwyddyn gyda'r bwriad o sefydlu panel aml-asiantaeth i reoli'r broses o'r atgyfeiriad cychwynnol i'r cynlluniau cymorth unigol ond ni lwyddwyd i wneud hyn hyd yma.

8.7 Bwriad y GTI oedd datblygu fframwaith o bolisïau, gweithdrefnau ac ymarfer yn y Flwyddyn Newydd ar ôl yr arolygiad hwn. Pe gellid rhyddhau'r GTI o'i gyfrifoldebau eraill o ran gweithredu a rheoli, roeddem yn hyderus bod ganddo'r potensial o ran y gallu i reoli a gweithredu ynghyd â'r arbenigedd i ddatblygu'r gwasanaeth atal.

Argymhelliad 9

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod pob agwedd ar y safonau cenedlaethol sy'n ymwneud ag ymarfer ac â rheolaeth weithredol yn cael eu cyflawni, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

wella ansawdd asesiadau aml-asiantaeth a chyfraniadau at gynlluniau ymyrryd gan reolwyr achosion a staff arbenigol y GTI, gan y gwasanaethau plant a theuluoedd, gan gydweithwyr ym maes addysg ac iechyd.

9.1 Gwelwyd gwelliannau sylweddol yn y maes hwn o ganlyniad i lenwi swyddi gwag, diffinio swyddogaethau staff yn glir ac adolygu a chytuno ar bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau. Ar ben hynny, roedd rhaglen barhaus ar gyfer datblygu staff wedi bod ar waith gan ganolbwyntio'n benodol ar asesiadau aml-asiantaeth a chyfraniadau at gynlluniau ymyrryd gan wasanaethau plant, a chydweithwyr ym maes addysg ac iechyd.

9.2 Cwblhawyd asesiadau Asset cychwynnol o fewn y gofynion safonol cenedlaethol o ran prydlondeb ym mhob un o'r sampl achosion a archwiliwyd, ac o ran ansawdd mewn 66% o'r sampl achosion a archwiliwyd. Roedd hyn yn cymharu â 71% a 54% adeg yr arolygiad gwreiddiol.

9.3 Yn ôl y dadansoddiad o'r sampl achosion, dangoswyd bod plant a phobl ifanc ynghyd â'u rhieni wedi bod yn rhan o'r asesiadau Asset mewn dros 93% o'r sampl achosion o'i gymharu â 71% cyn hynny.

9.4 Roedd asesiadau cychwynnol o blant a phobl ifanc wedi'u llywio gan y gwasanaethau plant mewn 67% o'r sampl achosion a thrwy gysylltiad â'r darparwr hyfforddiant/addysg, neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill, gan gynnwys iechyd, mewn 66% o'r sampl achosion. Roedd hyn yn cymharu â 25% yn yr arolygiad gwreiddiol.

9.5 Ystyriwyd bod asesiadau Asset cychwynnol yn 'ddigon safonol' gan y tîm arolygu mewn 67% o'r achosion, o'i gymharu â 46% yn yr arolygiad blaenorol.

9.6 Rhoddwyd sylw i'r dulliau a fyddai fwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc mewn 80% o'r sampl achosion o'i gymharu â 54% yn yr arolygiad gwreiddiol. Nodwyd ffactorau cadarnhaol, megis ffactorau cefnogol a phro-gymdeithasol mewn 93% o'r achosion.

9.7 Gwahoddwyd y plentyn neu'r unigolyn ifanc i lenwi ffurflen *Beth yw'ch barn chi*? Mewn 67% o'r sampl achosion o'i gymharu â 29% cyn hynny.

9.8 Roedd hil ac ethnigrwydd wedi'u cofnodi'n gywir ym mhob achos a archwiliwyd a materion amrywiaeth mewn 87% o'r sampl achosion.

9.9 Roedd yr apwyntiad cyntaf gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ar ôl cael gorchymyn cymunedol wedi'i gynnal o fewn 24 awr yn unol ag amserlenni'r safonau cenedlaethol mewn 82% o'r achosion a archwiliwyd o'i gymharu â 40% yn yr arolygiad gwreiddiol.

9.10 Roedd amlder yr apwyntiadau'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol mewn 82% o'r achosion o'i gymharu â llai na 50% cyn hynny.

9.11 Ystyrid bod dyfarniadau ynghylch derbynioldeb/annerbynioldeb yn gyson ac yn briodol ym mhob un achos perthnasol, a chymerwyd camau effeithiol i hybu cydymffurfiad mewn 60% o'r sampl achosion o'i gymharu â 44% cyn hynny.

Iechyd

9.12 Ers yr arolygiad cyntaf, roedd y GTI wedi cytuno ar brotocol ymarfer gweithio ar gyfer swydd nyrs arbenigol gyda Chyfarwyddiaeth Iechyd Plant Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Roedd hyn yn cynnwys arolygon iechyd, cyngor, cymorth a hybu iechyd, yn ogystal â llwybr cyfeirio at CAMHS pan oedd gan blentyn neu unigolyn ifanc anawsterau iechyd meddwl acíwt. Aeth ati hefyd i ffurfioli protocolau presennol er mwyn hwyluso'r broses briodol o rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill.

9.13 Cyflogwyd nyrs camddefnyddio sylweddau CAMHS gan Ymddiriedolaeth Cwm Taf ac roedd protocol ymarfer gweithio'n

berthnasol i'r swydd hon. Cytunwyd ar brotocol/cytundeb gweithio gydag Inroads (Prosiect Cyffuriau Stryd Caerdydd a'r Fro).

9.14 Roedd gan y GTI dîm iechyd sefydledig yn cynnwys nyrs clinigol arbenigol, gweithiwr Haen 3 CAMHS a gweithiwr Haen 2 ym maes camddefnyddio sylweddau. Roedd y tîm yn gallu defnyddio gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau CAMHS, gan gynnwys cefnogaeth bediatrig a seiciatrydd ymgynghorol, ac roedd cynlluniau ar waith i gael gweld cofnodion iechyd cymunedol electronig o swyddfa'r GTI.

9.15 Roedd adnabod anghenion iechyd ar asesiadau Asset wedi gwella ar gyfer iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Adnabuwyd yr anghenion hyn yn gywir ym mhob achos perthnasol o'i gymharu â 50% yn yr arolygiad cyntaf.

9.16 Mewn achosion lle adnabuwyd anghenion o ran iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, camwyd i mewn, ar gyfartaledd, mewn dros 78% o'r sampl achosion o'i gymharu â 50% yn yr arolygiad diwethaf.

9.17 Roedd tystiolaeth bod y GTI wedi cynorthwyo'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i gael gafael ar wasanaethau lleol mewn 83% o'r achosion a arolygwyd o'i gymharu â 58% yn yr arolygiad gwreiddiol.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

9.18 Roedd y GTI wedi cytuno ar brotocol gyda'r gwasanaethau plant a phobl ifanc ac wedi'i roi ar waith. Roedd y protocol yn cynnwys rheoli achosion, cadw rhywun yn y ddalfa a mechnïaeth, rheoli achosion a gyfeirir at y Prosiect Taith [gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol o ran iechyd rhyw] a threfniadau ar gyfer cyfathrebu a datrys anghydfodau.

Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

9.19 Roedd y Bwrdd Rheoli wedi bod yn monitro a chraffu perfformiad y GTI ac, yn y cyd-destun hwn, canolbwyntiwyd mwy ar blant a phobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac, o ganlyniad, rhoddwyd proffil uwch iddynt. Nodwyd anghenion, a gyda chefnogaeth y Bwrdd, aed ati i rannu ac i roi'r dulliau newydd ar waith er mwyn datrys materion.

9.20 Gwelwyd newidiadau sylweddol yn y maes penodol hwn dan arweiniad rhagweithiol y cyfarwyddwr dysgu a datblygu. Cytunwyd a gweithredwyd prosiect pasport i ddysgu ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed ac mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac roedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a gyfeiriwyd gan y GTI. Sefydlwyd cysylltiad uniongyrchol rhwng y cyfarwyddwr a swyddog addysg y GTI er mwyn hwyluso

gwelliannau i'r gwasanaeth. Roedd penaethiaid ysgolion uwchradd yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran plant a phobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

9.21 Lle dynodwyd bod gan blant a phobl ifanc oed ysgol statudol anghenion addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, roedd y plant/pobl ifanc hynny wedi'u hatgyfeirio'n briodol ar gyfer asesiad a chamwyd i mewn wedyn ym mhob un achos perthnasol o'i gymharu â 75% cyn hynny. Ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16, gwnaed atgyfeiriadau priodol ar gyfer asesiadau arbenigol mewn 75% o'r achosion. Yn y gwaith camu-i-mewn, hybwyd cyfleoedd dysgu a chyrhaeddiad mewn 94% o'r achosion perthnasol o'i gymharu â 80% yn yr arolygiad cyntaf.

9.22 Bellach, roedd plant a phobl ifanc dan 16 oed yn cael darpariaeth addysgol lle nad oeddent, yn aml iawn, yn ei chael am wythnosau ar y tro cyn hynny. Roedd prosesau ffurfiol ar waith yn cynnwys y GTI a'r awdurdod addysg lleol er mwyn nodi, trafod a datrys sut yr oedd plant a phobl ifanc a oedd yn 'destun pryder eithriadol' ac felly'n anodd eu lleoli yn cael eu rhoi mewn sefydliadau addysgol.

Mater yn disgwyl sylw

9.23 Roedd y prif fater a oedd yn disgwyl sylw yn ymwneud ag anallu'r GTI i gael staff llanw yn lle dau aelod o'i staff iechyd a oedd ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, a swydd wag rheolwr cynorthwyol tîm gwaith achos yr oedd rhywun arall yn gwneud y gwaith dros dro am ddau ddiwrnod yr wythnos yn unig.

Argymhelliad 10

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod pob agwedd ar y safonau cenedlaethol sy'n ymwneud ag ymarfer ac â rheolaeth weithredol yn cael eu cyflawni, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

wella ansawdd cynlluniau ymyrryd cychwynnol ac, yn benodol, rheoli'r Risg o Niwed a helpu plant a phobl ifanc i 'gadw'n ddiogel'.

10.1 Roedd y cynlluniau ymyrryd cychwynnol wedi cyrraedd y safon ofynnol o ran prydlondeb ac roeddent yn dangos yn glir pwy fyddai'n gwneud y gwaith ymyrryd mewn 83% o'r achosion a archwiliwyd. Roeddent hefyd yn mynd i'r afael â'r tebygolrwydd o aildroseddu mewn 83%, ac amrywiaeth mewn 80% o'r achosion o'i gymharu â llai na 50% cyn hynny.

10.2 Roedd y cynnydd gyda golwg ar amcanion y cynllun ymyrryd wedi'i adolygu mewn 86% o'r achosion a archwiliwyd o'i gymharu â 36% yn yr arolygiad gwreiddiol.

10.3 Roedd camau wedi'u cymryd mewn dros 82% o'r achosion a archwiliwyd i sicrhau bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn llwyr ddeall gofynion y gorchymyn, neu'r cosbau a fyddai'n dilyn petai'n

torri'r amodau mewn 64% o'r achosion, o'i gymharu â 60% yn flaenorol ar gyfer y ddau beth hyn.

10.4 Roedd yr apwyntiad cyntaf gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ar ôl dedfrydu wedi cael ei gynnal yn unol ag amserlenni'r safonau cenedlaethol mewn 82% o'r achosion o'i gymharu â 40% yn yr arolygiad cyntaf. Cynhaliwyd yr apwyntiadau oedd yn weddill o fewn diwrnod neu o fewn dau i bum niwrnod.

10.5 Roedd y panel troseddau ieuenctid wedi cwrdd o fewn 20 diwrnod ym mhob achos a archwiliwyd ac roedd y contract gorchymyn cyfeirio wedi cychwyn o fewn pum niwrnod mewn 67% o'r achosion perthnasol o'i gymharu â 43% cyn hynny.

10.6 Cymerwyd camau i fynd i'r afael ag anghenion llety ym mhob achos perthnasol o'i gymharu â 56% o'r achosion a arolygwyd yn flaenorol.

10.7 Roedd y GTI wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau plant a phobl ifanc lleol yn ystod y cyfnod asesu mewn 67% o'r sampl achosion o'i gymharu â 24% cyn hynny. Roedd statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i gofnodi'n glir mewn 93% o'r achosion, o'i gymharu â 47% yn yr arolygiad gwreiddiol, a bu cyswllt rhwng gweithiwr y GTI a'r gwasanaethau plant mewn 71% o'r achosion, o'i gymharu â 20% yn yr arolygiad gwreiddiol.

10.8 Adolygwyd y Risg o Niwed i eraill ar ôl digwyddiad o bwys yn y ddau achos perthnasol a arolygwyd.

Materion yn disgwyl sylw

10.9 Yn dilyn digwyddiad a allai fod yn ddifrifol ac archwiliadau ffeil achosion mewnol wythnosol a wnaed ers mis Medi 2008, roedd GTI'r Fro wedi nodi Risg o Niwed a diogelu fel meysydd y mae angen rhagor o ddatblygu a hyfforddi staff ar eu cyfer. Mewn adroddiad adolygu achosion difrifol interim a ysgrifennwyd gan dîm rheoli'r GTI, nodwyd y materion canlynol:

- *"dim digon o gefnogaeth ar gyfer rheolwr achosion; yn ddelfrydol, dylid gweithio ar y cyd yng nghyd-destun troseddwyr rhyw*
- *diffyg goruchwyliaeth gan reolwr llinell*
- *pwysau baich achosion risg mawr*
- *systemau gwael o fewn y GTI o ran sicrhau ansawdd".*

10.10 Roedd GTI yn rhoi sylw i'r materion hyn, ond nid oedd wedi eu datrys yn llwyr oherwydd diffyg gallu rheoli yn y maes gwaith pwysig iawn hwn. Cyflwynwyd archwiliadau achosion a goruchwyliwyd staff yn rheolaidd, ond yn sgil cyfuniad o salwch hirdymor a swydd wag rheolwr llinell gwelsom fod y gwasanaeth yn fregus yn y meysydd hyn.

10.11 Cwblhawyd ffurflen Asset ar Risg o Niwed Difrifol i eraill mewn dau o blith chwe achos perthnasol. Dim ond mewn un achos y darparwyd

esboniad derbyniol ar gyfer hyn ac y'i cofnodwyd ar Asset. O'r ddau achos, roeddem o'r farn y dylai dosbarth risg un achos fod wedi cael ei newid o ganolig i uchel.

10.12 Mewn tystiolaeth a gafwyd ymlaen llaw gan y GTI, ac a gadarnhawyd drwy gyfweliadau â staff, nodwyd nad oedd y TACAA wedi bod mor effeithiol ag y dylasent. Roedd hyn yn cael sylw drwy TACAA a threfnwyd cyfarfodydd at y diben hwn.

10.13 O'r tair dedfryd berthnasol o garchar, ni chwblhawyd cynllun rheoli risg Asset mewn dau achos, ac ni chydnabuwyd bod angen cynllunio yn unrhyw un o'r achosion. Ar ben hynny, ni welsom dystiolaeth o gyfranogiad rheolwyr canol a/neu uwch reolwyr.

10.14 Gwelsom nad oedd y Risg o Niwed Difrifol i eraill wedi cael ei hadolygu o fewn tri mis i'r asesiad Asset blaenorol a phob tri mis ar ôl hynny yn y rhan fwyaf o'r dedfrydau cymunedol a charchar.

10.15 Os ystyrid bod angen, oherwydd bod plentyn neu unigolyn ifanc yn agored i niwed, roedd y gweithiwr wedi'i gyfeirio at y gwasanaethau plant mewn dim ond un o blith pedwar achos perthnasol.

10.16 Gwelsom dystiolaeth i awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi bod yn risg iddynt hwy eu hunain mewn chwe achos a bod pobl eraill yn peri risg iddynt mewn pum achos. Fodd bynnag, dim ond er mwyn lleihau'r anghenion a nodwyd mewn dau achos y lluniwyd cynllun gweithredu ar fod yn agored i niwed, a dim ond rhywfaint o welliant oedd hyn ar yr arolygiad blaenorol.

10.17 Ni ystyriwyd bod gweithredu'n briodol er mwyn diwallu anghenion diogelu'r achos mewn pedwar o'r chwe achos.

10.18 Roedd amlder yr apwyntiadau yn diwallu unrhyw ystyriaethau Risg o Niwed mewn 55% o'r sampl achosion, ac ystyriaethau diogelu mewn 36% o'r achosion a arolygwyd, o'i gymharu â 50% a 54% yn yr arolygiad gwreiddiol.

10.19 Anghyson oedd ansawdd cyffredinol y gwaith i leihau Risg o Niwed Difrifol a helpu plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu i 'aros yn ddiogel'. Roedd rheolwyr a staff yn gwbl ymwybodol o'r diffygion hyn ac yn benderfynol o wella ansawdd eu gwaith yn y meysydd hyn.

Argymhelliad 11

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod pob agwedd ar y safonau cenedlaethol sy'n ymwneud ag ymarfer ac â rheolaeth weithredol yn cael eu cyflawni, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

ddatblygu gwaith gyda dioddefwyr a gwaith cyfiawnder adferol.

11.1 Barnwyd bod gwaith gyda dioddefwyr a chyfiawnder adferol yn ddigonol yn yr arolygiad gwreiddiol, ond roedd ein pryderon yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r ffaith fod swydd cydlynydd dioddefwyr

rhan-amser wedi bod yn wag ac nad oedd arwyddion o gwbl y byddid yn penodi rhywun i lenwi'r swydd. O ganlyniad, roedd peryglon amlwg y byddai'r gwasanaeth yn methu ag adeiladu ar y sylfeini cadarn a wnaed gan ddeiliad blaenorol y swydd.

11.2 Roeddem yn falch o weld fod sylw wedi cael ei roi i hyn. Penodwyd cydlynydd dioddefwyr rhan-amser newydd gan y GTI ac roedd wedi bod yn y swydd am oddeutu chwe mis ar ôl dechrau ym mis Mehefin 2008. Yn anffodus, roedd hyn yn rhy hwyr i gael effaith o bwys ar y gwaith gyda dioddefwyr a'r gwaith gwneud iawn a arolygwyd, gan fod y sampl achosion yn cynnwys y cyfnod rhwng 1 Mai 2008 a 31 Gorffennaf 2008.

11.3 Fel y nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol, roedd gweithdrefnau ar waith a oedd yn annog dioddefwyr i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder adferol, a sefydlwyd cysylltiadau agos i'r perwyl hwn rhwng y cydlynydd dioddefwyr, swyddog heddlu'r GTI a'r swyddog gwneud iawn. Pan oedd y dioddefwr wedi gofyn am i'r iawn gael ei wneud yn uniongyrchol, ymwelwyd â'r cartref ar y cyd er mwyn asesu risg. Roedd hyn wedi llithro braidd ond fe'i hadferwyd erbyn yr arolygiad hwn.

11.4 Cymerodd y cydlynydd ran mewn fforymau cynllunio achosion a gynhaliwyd ar gyfer plant a phobl ifanc yr ystyriwyd eu bod yn peri'r Risg fwyaf o Niwed i'r cyhoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch materion dioddefwyr. Cynhaliwyd hyfforddiant sylfaenol ar gyfer rheolwyr achos, a chefnogwyd hyn gan drafodaethau wyneb-yn-wyneb ynghylch eu rolau perthnasol o ran goruchwylio cynlluniau ymyrryd a gwneud iawn.

11.5 Yn sgil y berthynas gref gydag adran gwasanaethau gweladwy'r awdurdod lleol, parhawyd i ddarparu ystod o wasanaethau ar gyfer gwneud iawn. Roedd hyn yn cynnwys glanhau traethau, cael gwared ar graffiti a garddio a chasglu sbwriel mewn mannau cymunedol. Roedd cysylltiadau'n dal i fod hefyd gyda Gwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, ac roedd plant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau gwneud iawn drwy'r sefydliadau hyn.

11.6 Roedd perthynas waith dda gyda Gwasanaethau Tân, Ambiwlans a'r Heddlu De Cymru, yn ogystal â Chymorth i Ddioddefwyr, gwasanaeth cyswllt y meddyg teulu (a ddarperir gan dîm iechyd cymunedol y Fro ac sy'n cynnig cwnsela i bobl sy'n dioddef o drallod ond nad oes angen gwasanaeth iechyd meddwl tymor hir arnynt) a'r gwasanaeth prawf. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer cyfeirio dioddefwr i'r Bwrdd Digolledu am Anafiadau Troseddol mewn achosion priodol a hefyd ar gyfer trosglwyddo o'r GTI i wasanaethau dioddefwyr y gwasanaeth prawf pan fydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc sydd wedi troseddu yn 18 oed.

11.7 Roedd yr heddlu wedi trosglwyddo manylion dioddefwyr i'r GTI yn unol â'r safonau cenedlaethol mewn 80% o'r sampl achosion (tebyg i 77% yn yr arolygiad cyntaf). Roedd gan y GTI derfynell TG yr heddlu

a oedd yn ei gwneud yn hawdd i swyddog heddlu'r GTI a staff eraill a enwebwyd ac a hyfforddwyd gael mynediad at wybodaeth am ddioddefwyr.

11.8 Roedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi bod yn rhan o wneud iawn cymunedol yn y 12 achos perthnasol, ac roedd gwaith wedi dechrau o fewn tri mis i'r gorchymyn yn 11 o'r achosion hyn.

11.9 Llwyddwyd i gwblhau hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr ac, yn ystod wythnos yr arolygiad, hyfforddwyd wyth gwirfoddolwr newydd ac roeddent yn barod i gymryd rhan yng ngwaith y panel troseddau ieuenctid. Aeth dioddefwr i gyfarfod panel yn ddiweddar ac roedd naw dioddefwr arall wedi cyfranogi ac wedi cael eu cefnogi'n briodol.

11.10 Gwelsom fod yr aelodau staff a oedd yn ynghlwm wrth y maes gwaith hwn yn ymroddedig ac yn frwdfrydig dros ben. Roedd materion dioddefwyr wedi cael eu cyfleu'n glir i holl staff y GTI ac roeddem yn hyderus bod y conglfeini sylfaenol yn cael eu sefydlu er mwyn rhoi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith yn y gwasanaeth.

Materion yn disgwyl sylw

11.11 Roedd y dadansoddiad o ffeil achosion yn adlewyrchu diffyg gwasanaeth effeithiol ar gyfer dioddefwyr a chyfiawnder adferol cyn penodi'r cydlynydd dioddefwyr. Dim ond mewn 10% o'r sampl achosion y gwahoddwyd y dioddefwyr i gymryd rhan mewn proses cyfiawnder adferol a oedd yn berthnasol i'r trosedd, ac ni chofnodwyd y penderfyniad dros beidio â gwahodd y dioddefwr yn unrhyw un o'r achosion. Dim ond un dioddefwr a oedd wedi cymryd rhan mewn proses cyfiawnder adferol ac anaml iawn y mynychai dioddefwyr y panel troseddau ieuenctid.

11.12 Er bod sawl perthynas yn cael ei ffurfio tu mewn a'r tu allan i'r GTI, gwelsom mai camau datblygu cychwynnol oedd hyn a bod angen mwy o flaenoriaeth gan y rheolwyr er mwyn sicrhau canlyniadau sylweddol yn gyflym.

Atodiad 1 Gwybodaeth gyd-destunol

Ardal

Roedd GTI Bro Morgannwg wedi'i leoli yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ac, fel un GTI, roedd yn gwasanaethu awdurdod lleol Bro Morgannwg.

Poblogaeth yr ardal oedd 119,292 yn ôl Cyfrifiad 2001, ac roedd 11.3% o'r boblogaeth hon rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 10.4%.

Prydeinig gwyn oedd poblogaeth Bro Morgannwg yn bennaf (97.8%). Roedd y boblogaeth a oedd o gefndir du neu gefndir lleiafrif ethnig yn 2.2%, yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru/Lloegr, sef 8.7%.

Roedd y lefelau troseddu a gofnodwyd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed ym Mro Morgannwg yn 49.2 y 1,000, o'i gymharu â chyfartaledd o 53 yng Nghymru a Lloegr.

GTI

GTI Bro Morgannwg oedd un o saith TTI/GTI a wasanaethai ardal Prawf De Cymru ac ardal Heddlu De Cymru. Darparwyd gwasanaethau iechyd cymuned gan Ymddiriedolaeth y GIG Caerdydd a Bro Morgannwg.

Roedd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 yn dangos bod gan y GTI 32 o staff a 31 o wirfoddolwyr. Menywod oedd chwe deg tri y cant o'r staff ac roedd 0.03% yn dod o gefndir du neu o gefndir lleiafrif ethnig. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, roedd gan y GTI 24 aelod o staff, ac roedd chwech o'r rheini'n rhan-amser, a olygai bod 18 aelod o staff i gyd a oedd gyfwerth ag amser llawn. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y GTI wedi bod yn gweithredu gyda hyd at wyth swydd wag. Roedd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 2008/2009 yn dangos cynnydd i 27 aelod o staff, ac roedd chwech o'r rheini'n rhan-amser, a 31 o wirfoddolwyr, gyda'r rhan fwyaf o swyddi gwag yn cael eu llenwi.

Roedd gwaith y GTI, gan gynnwys y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys, wedi'i leoli mewn un brif swyddfa yn nhref fawr y Barri, gyda mynediad rhwydd i Lys Ieuenctid Bro Morgannwg a oedd yn gwasanaethu'r ardal.

Data am berfformiad y BCI

Wrth i'r BCI grynhoi perfformiad cyffredinol y GTI, fel yr oedd adeg yr arolygiad ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2008, rhoddwyd sgôr o 3 i GTI Bro Morgannwg ar raddfa lle mai 5 yw'r sgôr uchaf. Roedd hyn yn gydradd â'r perfformiad cenedlaethol ac ychydig yn is na'r perfformiad rhanbarthol ar gyfer Cymru yn ogystal â pherfformiad TTI/TGI tebyg (hefyd ar lefel 3).

Y sgôr a roddwyd ar gyfer perfformiad i leihau aildroseddu oedd 5, a oedd yn sylweddol uwch na phob cymharydd.

Atodiad 2 Data'r Arolygiad

Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Rhagfyr 2008.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- tystiolaeth ymlaen llaw
- archwilio data ac asesiadau perfformiad y BCI
- archwilio'r ymarfer mewn sampl o achosion, gan amlaf ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall, fel a ganlyn:
  - 3 ffeil atal
  - 4 rhybudd terfynol
  - 5 cosb haen gyntaf (gorchmynion cyfeirio, gorchmynion gwneud iawn)
  - 6 dedfryd gymunedol
  - 5 dedfryd cadw dan glo.
- cyfarfodydd â staff, rheolwyr a phartneriaid.






Achosion ISSP/PPO
17%
83%
PPO
Nid PPO


Risg Uchel / Uchel lawn o Niwed
26%
74%
Risg Uchel / Uchel iawn o Niwed
Ddim yn Risg Uchel o Niwed


Sampl achosion yn ôl gorchymyn
13%
17%
22%
22%
26%
Rhybudd Olaf
Haen Gyntaf
Gorchymyn Cymunedol
Carchar
Atal

Atodiad 3 Trefniadau cyd-arolygu

Dechreuodd rhaglen cydarolygu'r TTI/GTI ym mis Medi 2003 a dyma'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith y timau/gwasanaethau. Mae wedi cael ei rhoi ar waith dros bedwar cyfnod, gan arolygu pob un o'r 157 o Dimau Troseddwyr Ifanc / Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod o bum mlynedd.

Atodiad 4 Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r cod ymarfer

Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Prawf EM, ac fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein pwrpas yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn ag effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc gyda'r nod o leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith hwn dan adain y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- adrodd ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl y galw
- cyfrannu at well perfformiad gan y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at bolisi cadarn a darparu gwasanaethau effeithiol, yn enwedig o ran amddiffyn y cyhoedd, drwy roi cyngor a lledaenu arferion da, ar sail canfyddiadau arolygon, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo'n frwd gydraddoldeb rhwng yr hiliau a materion ehangach sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth, yn enwedig yn y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig drwy gydweithio ag arolygiaethau eraill.

Nod Arolygiaeth Prawf EM yw cyflawni ei phwrpas a gwireddu egwyddorion y Llywodraeth o ran arolygu'r sector cyhoeddus drwy:

- weithio mewn ffordd onest, broffesiynol, deg a chwrtais
- adrodd ynglŷn â chanfyddiadau arolygiadau a'u cyhoeddi ynghyd â chyflwyno argymhellion ar gyfer gwella a hynny'n brydlon ac o safon dda.
- hyrwyddo cydraddoldeb rhwng yr hiliau a sicrhau sylw ehangach i amrywiaeth yn holl agweddau'n gwaith, gan gynnwys o fewn ein harferion cyflogi a phrosesau ein trefniadaeth ni'n hunain
- ar gyfer y sefydliadau yr ydym yn arolygu eu gwaith, ceisio sicrhau bod cyn lleied o waith ychwanegol ag y bo modd yn deillio o'r broses arolygu.

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cynnig sylwadau am arolygiad, am adroddiad neu am unrhyw fater arall o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf EM
2il Lawr, Ashley House
2 Monck Street
Llundain, SW1P 2BQ

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation